# ADRODDIAD AR Y PRIF UCHAFBWYNTIAU 2025/26

Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

**11** o bynciau wedi'u symud ymlaen i arfarniadau tystiolaeth

**10** o ganllawiau HTW wedi'u cyhoeddi

**62** o adroddiadau canllaw HTW wedi'u cyhoeddi ers 2017

**Dr Susan Myles,** Cyfarwyddwr HTW

"Yn y pedair blynedd nesaf, mae gan Dechnoleg Iechyd Cymru rôl hanfodol i'w chwarae mewn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i wella'n sylweddol iechyd a gofal i bobl Cymru.

Mae datblygiadau technolegol cyflym yn golygu ei bod hi'n bwysicach nag erioed nodi technolegau iechyd sydd â'r effaith fwyaf posibl ar gyfer Cymru ac asesu eu heffeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n rhanddeiliaid ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol am eu cefnogaeth barhaus i'n gwaith."

### Lansio Cynllun Strategol 2026-2030

Eleni, lansiodd HTW ei Gynllun Strategol newydd ar gyfer 2026–2030, gan nodi blaenoriaethau uchelgeisiol ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Wedi'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol, bydd y cynllun yn cefnogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, arloesedd a mabwysiadu technolegau iechyd effeithiol ledled Cymru.

### Gwella Canllawiau ac Argymhellion HTW

Er mwyn gwneud ein canllawiau'n gliriach ac yn fwy hygyrch, cyflwynodd HTW set newydd o gategorïau argymhellion safonol. Bydd y dull wedi'i ddiweddaru yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb ac yn cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau ar draws system iechyd a gofal Cymru.

### Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae HTW wedi cymryd camau pwysig i gryfhau ystyriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) yn ei broses arfarnu. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull ffurfiol o ymgorffori tystiolaeth ED&I mewn arfarniadau ac ailgynllunio'r Offeryn Mecanwaith Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) i sicrhau bod pob un o'r naw nodwedd warchodedig yn cael eu hystyried.


### Dathlu Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd

H Roedd HTW yn falch o gyfrannu at ail argraffiad y llyfr rhyngwladol ar PPI mewn Asesiadau Technoleg Iechyd. Mae pennod Cymru yn arddangos dull arloesol a chydweithredol HTW o gynnwys cleifion, a sut mae datblygiadau parhaus i'r Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPISG) wedi cryfhau lleisiau cleifion yn ein gwaith.

### Ysgogi Effaith Trwy Archwiliadau Mabwysiadu

Cyflawnodd ein Harchwiliad Mabwysiadu diweddaraf gyfradd ymateb uchaf erioed o 98%, gyda phob un o'r 10 sefydliad comisiynu yng Nghymru yn cymryd rhan. Dangosodd y canfyddiadau fod canllawiau HTW yn parhau i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau ledled Cymru ac yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i sut mae technolegau'n cael eu mabwysiadu yn ymarferol.

**Argymhellion canllawiau HTW 2025/2026**




**Ydych chi'n gwybod am dechnoleg neu fodel gofal a chymorth y gallai HTW eu harfarnu? I awgrymu pwnc, cwblhewch ein ffurflen ar-lein.**

FFURFLEN AWGRYMU PWNC

www.healthtechnology.wales | healthtechnology@wales.nhs.uk | @HealthTechWales

Cliciwch yma i ddarllen Adroddiad Blynyddol 2024/25 Technoleg Iechyd Cymru